Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Adeiladu 20,000 o gartrefi carbon isel newydd: asesiad integredig o’u heffaith

Sut gall yr ymrwymiad i adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd i’w rhentu effeithio ar nifer o feysydd.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 21 Medi 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 21 Medi 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/adeiladu-20000-o-gartrefi-carbon-isel-newydd-asesiad-integredig-ou-heffaith-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


## Adran 1: Pa gamau y mae llywodraeth cymru yn eu hystyried a pham?

## Adran 8: Casgliad



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/adeiladu-20000-o-gartrefi-carbon-isel-newydd-asesiad-integredig-ou-heffaith-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Adran 1: Pa gamau y mae llywodraeth cymru yn eu hystyried a pham?

**Ar ffurf naratif, disgrifiwch y mater a'r camau a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Sut ydych chi wedi cymhwyso/ fyddwch chi'n cymhwyso'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r cam gweithredu arfaethedig, drwy gydol y polisi a'r cylch cyflawni?**

Mae Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 yn cynnwys yr ymrwymiad i "*adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd i'w rhentu*".

Cyhoeddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James AS, ddatganiad ysgrifenedig ar 14 Mehefin 2021. Roedd y datganiad yn nodi'r ymrwymiad i ddarparu 20,000 o gartrefi carbon isel newydd i'w rhentu o fewn y sector cymdeithasol yn ystod tymor y llywodraeth hon.

Mae'r datganiad hefyd yn nodi y bydd y targed yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar gartrefi sy'n cael eu rhentu gan landlordiaid cymdeithasol. Cadarnhaodd y datganiad y bydd y targed yn cael ei ddiffinio o fewn diffiniad cydnabyddedig Nodyn Cyngor Technegol 2 o dai fforddiadwy. Fodd bynnag dim ond cartrefi cymdeithasol i'w rhentu, tai canolradd i'w rhentu a chynlluniau rhanberchenogaeth fydd yn cael eu cynnwys.

Cadarnhaodd hefyd fod yr opsiwn o ddiwallu'r angen uniongyrchol am dai trwy gaffael yn bwysig ac yn parhau lle bo'n briodol. Er y bydd mwyafrif helaeth o'r targed yn ymwneud â darparu cartrefi newydd, bydd caffaeliadau yn cyfrannu at y targed tai.

Mae symud i ganolbwyntio'r targed yn benodol ar dai i'w rhentu yn y sector cymdeithasol yn heriol. Mae'r targed ar gyfer tai cymdeithasol yn mynd y tu hwnt i'r amcangyfrifon blynyddol o ran anghenion am dai ychwanegol a nodir yn Amcangyfrifon Llywodraeth Cymru o'r Angen Ychwanegol am Dai yng Nghymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/adeiladu-20000-o-gartrefi-carbon-isel-newydd-asesiad-integredig-ou-heffaith-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

a gyhoeddwyd ym mis Awst 2020.

Er bod y cymorth sydd ar gael ar gyfer tai'r farchnad agored drwy nifer o raglenni Llywodraeth Cymru (gan gynnwys Cymorth i Brynu Cymru a Chymorth Prynu Cymru) yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r gyfres o gefnogaeth i'r rheini sy'n dymuno bod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain, nid yw'n cyfrannu at gyrraedd y targed.

Mae ystadegau diweddaraf y Ddarpariaeth Tai Fforddiadwy, a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2021, yn dangos bod 3,603 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol wedi'u darparu ledled Cymru yn 2020-21. Mae hyn yn gynnydd o 22% (661 o gartrefi) ar y flwyddyn flaenorol a ffigur 2020-21 yw'r cyfanswm blynyddol uchaf hyd yma. Cyfartaledd blynyddol tai fforddiadwy ychwanegol y Nodyn Cyngor Technegol 2 ar gyfer tymor olaf y llywodraeth yw 2,800. Mae'r ystadegau hyn yn cynnwys tai fforddiadwy ychwanegol heb elfen o rentu. Cyhoeddwyd y datganiad ystadegol cyntaf yn adrodd ar gynnydd tuag at gyrraedd y targed hwn ym mis Chwefror 2023. Dangosodd y datganiad fod 2,676 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol wedi'u darparu ledled Cymru yn 2021-22, y trydydd ffigur uchaf a gofnodwyd erioed o ran darparu.

Er mwyn cefnogi'r broses ffurfiol o gasglu data, ymgymerir â chasgliad anffurfiol bob blwyddyn trwy ffurflenni data'r arolwg rheoli datblygu. Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) ac Awdurdodau Lleol (ALlau) yn darparu amcanestyniadau blynyddol ar gyfer nifer y cartrefi y maent yn disgwyl eu darparu. Er bod yr amcanestyniadau hyn yn arwydd tuag at gyrraedd y targed, ceir rhywfaint o anghywirdeb ynddynt.

Yn 2021-22, dyrannodd Llywodraeth Cymru gyllideb sylweddol o £250m i'r Grant Tai Cymdeithasol, roedd hyn yn ddwbl y gyllideb yn 2020-21 er mwyn cefnogi'r gwaith o gyrraedd y targed ar gyfer Tai yn uniongyrchol. Mae angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol a pharhaus drwy'r Grant Tai Cymdeithasol i gyrraedd y targed. Mae'r lefelau uchaf erioed o gyllid hefyd wedi'u pennu drwy'r gyllideb yn y flwyddyn gyfredol hon (2022-23) gyda £300m a dyraniadau cyllideb

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/adeiladu-20000-o-gartrefi-carbon-isel-newydd-asesiad-integredig-ou-heffaith-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

drafft dangosol o £330m yn 2023-24 a £325m yn 2024-25.

Mae heriau sylweddol yn wynebu'r sector tai sy'n effeithio ar ddarparu tai fforddiadwy, ond mae gweithredu ar y cyd parhaus ar draws adrannau Llywodraeth Cymru a'r sector tai er mwyn rhyddhau safleoedd a bwrw ymlaen â datblygiadau mewn modd sydd wedi'i reoli a'i flaenoriaethu. Er ein bod yn canolbwyntio ar adeiladu cartrefi newydd, mae caffael yn bwysig wrth helpu i ddiwallu anghenion ein grwpiau sydd fwyaf agored i niwed. Rydym yn cefnogi amrywiaeth o fentrau a fydd yn darparu mwy o gartrefi tuag at y targed o 20,000 o gartrefi, gan gynnwys caffael eiddo, ailfodelu llety presennol, trosi adeiladau yn llety o ansawdd da, a'r defnydd arloesol o ddulliau modern o adeiladu a llety modiwlaidd.

Cefnogir y targed tai gan drefniadau llywodraethu clir gan gynnwys Grŵp Llywio a Bwrdd Rhaglen. Cefnogir y targed hefyd trwy gytundeb ffurfiol gyda chynrychiolwyr allweddol o'r sector tai. Mae Cytundeb Tai 2021-26 yn y broses o gael ei ddatblygu a bydd yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru / Gweinidogion Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn cydweithio i gyrraedd y targed.

# Adran 8: Casgliad

### 8.1 Sut mae'r bobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi bod yn rhan o'i ddatblygu?

Bydd y targed ar gyfer tai cymdeithasol yn effeithio'n uniongyrchol ar unigolion a theuluoedd sydd angen tai. Bydd yn ceisio darparu tai o ansawdd da sy'n diwallu eu hanghenion yn awr ac yn y dyfodol. Er bod y targed yn un o ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fydd yn darparu'r cartrefi. Felly cyfrifoldeb y rhai sy'n darparu'r cartrefi, a'r adran gynllunio leol drwy'r cynllun datblygu lleol a'r broses

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/adeiladu-20000-o-gartrefi-carbon-isel-newydd-asesiad-integredig-ou-heffaith-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gynllunio, yw sicrhau bod unigolion yn cael eu cynnwys yn uniongyrchol lle bo hynny'n bosib.

**8.2 Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol?**

Bydd darparu cartrefi cymdeithasol wrth gyrraedd y targed yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar yr unigolion sydd angen tai. Bydd yn darparu cartrefi fforddiadwy o ansawdd da i rai o'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn y gymdeithas.

**8.3 O ystyried yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig yn:**

- **cyfrannu i'r eithaf tuag at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Bwriad y targed newydd yw darparu 20,000 o gartrefi carbon isel newydd i'w rhentu yn y sector cymdeithasol. Bydd yn darparu tai ychwanegol ar gyfer unigolion a theuluoedd sydd fwyaf anghenus. Bydd hyn, yn ei dro, yn cyfrannu at yr amcanion llesiant a'r saith nod llesiant fel a ganlyn:

- Cymru lewyrchus;

Mae adeiladu tai yn cyfrannu at economïau lleol, gan greu a chefnogi swyddi, cyfleoedd hyfforddi a chadwyni cyflenwi datblygu tai.

- Cymru gydnerth;

Bydd tai a'r targed o 20,000 yn darparu cartrefi i'r rhai sydd fwyaf anghenus yng Nghymru. Awdurdodau lleol fydd yn ymgymryd â phennu lleoliad ac angen drwy'r broses Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA). Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â'u cymunedau lleol i asesu angen.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/adeiladu-20000-o-gartrefi-carbon-isel-newydd-asesiad-integredig-ou-heffaith-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Cymru iachach;

Mae manteision clir o ran iechyd, iechyd meddwl a lles o gael cartref o ansawdd da sy’n addas i anghenion unigolyn a theuluoedd.

- Cymru sy’n fwy cyfartal;

Bydd y targed ar gyfer tai cymdeithasol yn darparu mwy o gartrefi i'r rhai mwyaf anghenus. Gwyddom mai’r rhai sydd fwyaf agored i niwed ac ar ben isaf y raddfa economaidd-gymdeithasol fydd fel arfer yn breswylwyr tai cymdeithasol. Mae’n hanfodol felly bod mwy o dai cymdeithasol o ansawdd da yn cael eu darparu ledled Cymru.

- Cymru o gymunedau cydlynus;

Bydd darparu tai cymdeithasol ychwanegol yn sicrhau bod cartrefi o ansawdd da yn cael eu darparu ar gyfer y rhai mwyaf anghenus. Bydd yn rhaid i unrhyw gartrefi ychwanegol gadw at ddyraniadau cynllunio a chynlluniau datblygu lleol i sicrhau bod datblygiadau'n cael eu hadeiladu gyda chymunedau cydlynus mewn golwg.

- Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu;

Gwyddom fod angen tai cymdeithasol ar draws Cymru gyfan gan gynnwys o fewn cymunedau Cymraeg eu hiaith. Gwyddom na fydd pob cymuned yn wynebu’r un heriau a gofynion o ran tai. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddarparu cartrefi i ymateb i’r angen lleol am dai yn eu hardaloedd.

### 8.4 Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei fonitro a'i werthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan ddaw i ben?

Bydd y cynnydd tuag at gyrraedd y targed o 20,000 yn cael ei fonitro drwy ystadegau’r Ddarpariaeth Tai Fforddiadwy. Cyhoeddwyd y datganiad ystadegol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/adeiladu-20000-o-gartrefi-carbon-isel-newydd-asesiad-integredig-ou-heffaith-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cyntaf yn adrodd ar gynnydd tuag at gyrraedd y targed hwn ym mis Chwefror 2023. Dangosodd y datganiad fod 2,676 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol wedi'u darparu ledled Cymru yn 2021-22, y trydydd ffigur uchaf a gofnodwyd erioed o ran darparu.   Mae heriau sylweddol yn wynebu'r sector tai sy'n effeithio ar ddarparu tai fforddiadwy, ond mae gweithredu ar y cyd parhaus ar draws adrannau Llywodraeth Cymru a'r sector tai er mwyn rhyddhau safleoedd a bwrw ymlaen â datblygiadau mewn modd sydd wedi'i reoli a'i flaenoriaethu. Er ein bod yn canolbwyntio ar adeiladu cartrefi newydd, mae caffael yn bwysig wrth helpu i ddiwallu anghenion ein grwpiau sydd fwyaf agored i niwed. Rydym yn cefnogi amrywiaeth o fentrau a fydd yn darparu mwy o gartrefi tuag at y targed o 20,000 o gartrefi, gan gynnwys caffael eiddo, ailfodelu llety presennol, trosi adeiladau yn llety o ansawdd da, a'r defnydd arloesol o ddulliau modern o adeiladu a llety modiwlaidd.

Mae swyddogion hefyd yn gweithio gyda'r sector i ddeall ystadegau anffurfiol yn ystod Ebrill / Mai bob blwyddyn er mwyn deall y sefyllfa o ran cyrraedd y targed, gan gynnwys y wybodaeth a ddarperir trwy'r Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol.

Cefnogir y targed hefyd drwy drefniadau llywodraethu ffurfiol, gan gynnwys bwrdd rhaglen, grŵp llywio a dogfennaeth llywodraethu priodol.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/adeiladu-20000-o-gartrefi-carbon-isel-newydd-asesiad-integredig-ou-heffaith-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.